

**Classification: NOT PROTECTIVELY MARKED**

## **Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful**

**Hysbysiad prosesu teg – Menter Twyll Cenedlaethol**  
(Hysbysiad Preifatrwydd)

Yn unol â Deddf Diogelu Data 1998

**Dyddiad Creu:** Hydref 2016

**Dyddiad Adolygu:** Hydref 2017



### **Manylion cyswllt:**

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful  
Canolfan Ddinesig  
Stryd y Castell  
Merthyr Tudful  
CF47 8AN

01685 725000  
[customer.care@merthyr.gov.uk](mailto:customer.care@merthyr.gov.uk)

Mae dyletswydd gyfreithiol ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful i ddiogelu'r arian cyhoeddus yr ydym yn ei weinyddu. Er mwyn sicrhau ein bod ni'n diogelu'r arian cyhoeddus hwn mae'n ofynnol ein bod yn rhannu gwybodaeth, a gafodd ei chasglu yn ystod cyfnod ein swyddogaethau cyhoeddus ac fel cyflogwr, â Swyddfa'r Cabinet a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r wybodaeth hon yn berthnasol i, ac yn dynodi, aelodau ein staff, Cyngorwyr, cleientiaid ac aelodau'r cyhoedd sy'n preswyllo ym mwrdeistref Merthyr Tudful.

Mae Swyddfa'r Cabinet a Swyddfa Archwilio Cymru yn gyfrifol am archwilio a gweinyddu arian cyhoeddus er mwyn atal a datgelu twyll. Mae Menter Twyll Cenedlaethol yn ymarfer sy'n paru data sy'n cynnwys cymharu setiau o ddata a chofnodion cyfrifiadu'r y mae un corff yn ei gadw yn erbyn cofnodion cyfrifiadu'r y mae'r un corff neu gorff arall yn ei gadw er mwyn gweld i ba raddau y maen nhw'n cydweddu. Mae'n ofynnol bod y Fenter Twyll Cenedlaethol yn cael mynediad at nifer o'n setiau data y gellir dod o hyd iddynt yn Atodiad 1– NFI 2016/2017 rhaglen waith ar gyfer cyfranogwyr gorfodol Rhaglen Waith Menter Twyll Cenedlaethol. Mae'r ddogfen ganllaw hon ar gael i'w gweld ar-lein:

[http://www.audit.wales/sites/default/files/nfi\\_data\\_spec\\_work\\_programme\\_2016\\_english.pdf](http://www.audit.wales/sites/default/files/nfi_data_spec_work_programme_2016_english.pdf)

Pan fydd Swyddfa'r Cabinet wedi cwblhau'r ymarfer paru data, byddwn yn derbyn copi o'u hadroddiad. Bydd yr adroddiad hwn yn manylu ar unrhyw bethau sy'n cydweddu a ganfuwyd, y byddai'n ofynnol i ni eu harchwilio er mwyn datgelu enghreifftiau o dwyll a chamgymeriadau ariannol. Pan fydd dau beth sy'n paru yn cael eu darganfod, mae'n bosibl y gallai hynny ddynodi fod yna anghysondeb, a bydd yn ofynnol i ni gymryd camau adfer er mwyn datrys y mater a diweddarau ein cofnodion yn unol â hynny.

Ni fyddwn yn trosglwyddo'r data a ddarperir i Swyddfa'r Cabinet i unrhyw wledydd y tu allan i Ardal Economaidd Ewrop. Byddwn yn cadw'r cofnodion hyn yn unol â'n polisiau cadw cofnodion mewnol, gellir cael copïau ar gais drwy ddefnyddio'r manylion cyswllt a ddarperir uchod.

Gall unigolion gael copïau o'r wybodaeth rydym yn ei chadw drwy gyflwyno cais am fynediad at bwnc i'r Cyngor o dan y Ddeddf Diogelu Data. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'r Cyngor drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ddarparwyd uchod neu'r cyfeiriad e-bost [FOI@merthyr.gov.uk](mailto:FOI@merthyr.gov.uk). Os ydych yn anhapus am y ffordd y mae'r Cyngor yn prosesu gwybodaeth bersonol mewn ymateb i'r Fenter Twyll Cenedlaethol a'ch bod am gyflwyno cwyn, cysylltwch â ni drwy'r cyfeiriad e-bost [FOI@merthyr.gov.uk](mailto:FOI@merthyr.gov.uk) gyda manylion am eich pryderon.

Mae dyletswydd gyfreithiol ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful i gyfranogi yn y Fenter Twyll Cenedlaethol fel yn ôl Rhan 3A Adran 64B Deddf Archwilio'r Cyhoedd (Cymru) 2004. Yn hynny o beth mae'r Cyngor yn bodloni'r amodau sy'n gynnwys yn Atodlenni 2 a 3 Deddf Diogelu Data 1998. Pe na fyddem ni wedi

**Classification: NOT PROTECTIVELY MARKED**

cyflenwi'r wybodaeth hon i Swyddfa'r Cabinet, byddem yn torri amodau Deddf Archwilio'r Cyhoedd (Cymru) 2004 a gallem fod yn wynebu cosb droseddol o ganlyniad i hynny.